| | |
|---|---|
| **Teitl:**<br>**Title:** | Polisi Iaith Gymraeg **Cydraddoldeb ac Amrywiaeth /**<br>**Equa** |
| **Fersiwn:**<br>**Version** | 1 |
| **I bwy mae'r Polisi hwn yn berthnasol?**<br>**Who does this Policy Relate to?** | Myfyrwyr / **Staff** / Myfyrwyr a Sta<br>fanylion) dysgwyr |

| | |
|---|---|
| Dolen at Gam 1 Asesu Effaith (ar Gydraddoldeb a'r Gymraeg): /Impact Assessment Stage 1 (Equality & Welsh) link: | AEG Cam 1 |
| *Effaith ar yr Iaith Gymraeg*<br><br>*Mae asesiad effaith wedi'i gynnal ar y polisi hwn i ystyried ei effaith ar yr Iaith Gymraeg yn unol â Safonau'r Gymraeg (94-104) a Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011.* | *Welsh Language Impact*<br><br>An impact assessment has been carried out on this policy to consider its effect on the Welsh Language in accordance with the Welsh<br>Language Standards (94-104) and the Welsh Language (Wales) Measure 2011. |

**Adolygu a Chymeradwyo / Review and Approval**

| | | |
|---|---|---|
| **Perchennog y Ddogfen: Document Owner:** | Llinos Roberts | |
| **Ymgynghoriad / Consultation:** | | |
| **Dyddiad Cymeradwyo /** Date Approved | Cymeradwyaeth y Pwyllgor Mewnol e.e. Grŵp Diogelu / Internal Committee Approval e.g. Safeguarding Group | *Enw'r Grŵp a'r Dyddiad / Name of group & date* |
| | **Pwyllgor Cyfathrebu a Diwylliant / Communications & Culture Committee:** | **02/02/22** |

| | Pwyllgorau'r Bwrdd / Board Committees: Pwyllgor Archwilio a Risg / Audit & Risk Committee: | Amh. |
|---|---|---|
| | Pwyllgor Cwricwlwm a Safonau / Curriculum & Standards Committee | Amh. |
| | Pwyllgor Cyllid, Pobl a Diwylliant / Finance, People & Culture Committee: | I'w gadarnhau |
| | Corff Llywodraethu / Governing Body: | I'w gadarnhau |

| **Dyddiad Adolygu: Review Date:** | **17/06/2026** |
|---|---|



**Tabl Cynnwys**

**1** Datganiad ac Amcanion Polisi

1.1 Datganiad Polisi

1.2 Amcanion Polisi

**2 Darpariaeth Gwasanaethau**

2.1 Gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiadau

2.2 Arwyddion a hysbysiadau

2.3 Cynnwys ar-lein

2.4 Rhaglenni meddalwedd ac apiau

2.5 Gwasanaethau ffôn

2.6 Cyfarfodydd

2.7 Tiwtoriaid Personol

2.8 Asesiadau ac arholiadau

2.9 Darlithoedd cyhoeddus, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu

**3 Gweithrediadau Mewnol**

3.1 Staffio a recriwtio

3.2 Cwynion gan / am staff

3.3 Sgiliau Iaith Gymraeg a hyfforddiant

3.4 Bathodyn Siaradwyr Cymraeg

3.5 Polisïau

3.6 Cadw cofnodion

**4 Cwynion**

**5 Cyfrifoldeb a Monitro**



# **1** Datganiad ac Amcanion Polisi

1.1 Datganiad Polisi

Mae Coleg Cambria yn croesawu'r ymrwymiadau a nodir yn Safonau'r Gymraeg, a gyflwynwyd dan Fesur y Gymraeg (Cymru) 2011, a bydd yn parhau i fynd ati i hyrwyddo'r Gymraeg yn weithredol ymysg ei staff a'i fyfyrwyr. Fel rhan o'i gyfraniad tuag at ddiwylliant, cymdeithas ac economi Cymru, mae'r coleg wedi ymrwymo i beidio â thrin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg.

Mae'r polisi hwn yn amlinellu cyfrifoldebau'r coleg o ran ei ddarpariaeth gwasanaethau Cymraeg yn unol â gofynion Safonau'r Gymraeg.

Mae rhannau o’r polisi hwn yn berthnasol i bob adran o’r coleg. Cyfrifoldeb pob aelod o staff sy'n ymwneud â chyflwyno gwasanaethau yw cadw at y canllawiau a nodir yn y ddogfen hon.

1. 2 Amcanion Polisi

Mae'r polisi hwn yn cynghori ynghylch defnyddio’r Gymraeg yn narpariaeth gwasanaethau’r coleg yn fewnol ac yn allanol.

Mae'r polisi hwn yn rhoi arweiniad am y gwasanaethau y mae'n rhaid eu darparu yn Gymraeg ac yn Saesneg, a'n hymrwymiad i wneud yn siŵr na chaiff y Gymraeg ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg.

## 2 Darparu Gwasanaethau

### 2.1 Gohebiaeth, cyhoeddiadau a hysbysiadau

2.1.1 Pan fydd unrhyw fyfyriwr, darpar fyfyriwr neu aelod o'r cyhoedd yn ysgrifennu at y coleg yn Gymraeg drwy unrhyw gyfrwng (e-bost, neges destun, gohebiaeth ysgrifenedig, ac ati), byddwn yn ateb yn Gymraeg oni bai bod y sawl sydd wedi anfon yr ohebiaeth wedi nodi nad oes angen ateb yn Gymraeg, neu os nad oes angen ateb o gwbl.

2.1.2 At ddibenion anfon gohebiaeth sy’n mynd yn allanol a/neu gynhyrchu cyhoeddiadau a deunyddiau hysbysebu, bydd pob paragraff o 2.1.5 ac wedi hynny yn Adran 2 yn berthnasol os caiff y deunydd ei gynhyrchu ar ran y coleg a’i fod wedi'i anelu at unrhyw fyfyriwr neu aelod o’r cyhoedd sy’n byw yng Nghymru, pan fo diben neu gynnwys y cyhoeddiad o dan sylw yn ymwneud ag o leiaf un o’r canlynol:

a) derbyn a dethol myfyrwyr;

b) gwybodaeth a roddir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y coleg; lles myfyrwyr

d) cwynion;

e) gweithdrefnau disgyblu ynghylch myfyriwr;

f) gwasanaethau gyrfaoedd;

g) mewnrwyd y myfyrwyr, safleoedd dysgu rhithwir, a safleoedd porth dysgu;

h) seremonïau graddio a gwobrwyo;

i) asesiadau neu arholiadau myfyrwyr;

j) dyfarnu grantiau a rhoi cymorth ariannol; k) darlithoedd cyhoeddus

l) cyfleoedd dysgu;

m) pennu tiwtoriaid personol;

n) llety myfyrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau;

o) galwadau i linell gymorth, canolfan alwadau neu brif rifau ffôn a systemau ffôn awtomatig;

p) arwyddion ar adeiladau'r coleg.

2.1.3 Os yw'r coleg yn gwybod dewis iaith myfyriwr neu ddarpar fyfyriwr ac mae'r cyfathrebiad wedi'i bersonoli ac yn unigryw i'r unigolyn hwnnw, gellir anfon gohebiaeth/cyhoeddiadau a deunyddiau hysbysebu yn yr iaith ddewisol yn unig. Bydd hyn yn cael ei nodi ar system wybodaeth rheoli myfyrwyr.

2.1.4 Pan mae'r coleg yn anfon yr un ohebiaeth neu gyhoeddusrwydd a deunydd(iau) hysbysebu at nifer o bobl, rhaid anfon fersiwn Gymraeg o'r ohebiaeth neu'r deunydd(iau) ar yr un pryd ag unrhyw fersiwn Saesneg.

2.1.5 At ddibenion anfon cyfathrebiadau yn allanol, bydd y coleg yn cadw at bolisi o roi fersiwn Cymraeg y testun cyn unrhyw fersiwn Saesneg o'r un testun.

2.1.6 Ym mhob gohebiaeth a gyhoeddir gan y coleg ac ym mhob cyhoeddiad a hysbysiad, bydd yn nodi bod y coleg yn croesawu gohebiaeth yn Gymraeg ac y bydd yn ymateb i ohebiaeth yn Gymraeg o fewn yr un amser ag ymatebion Saesneg.

2.1.7 Os cynhyrchir fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân o ddeunydd cyhoeddusrwydd a hysbysebu, bydd datganiad ar y fersiwn Saesneg yn nodi bod fersiwn Cymraeg ar gael.

2.1.8 Nid oes raid i'r coleg gyfieithu unrhyw destun a gynhyrchwyd gan rywun arall i'r Gymraeg. Fodd bynnag, yr arfer orau yw gofyn i'r cyrff allanol hyn ddarparu fersiynau dwyieithog neu fersiynau Cymraeg/Saesneg ar wahân lle bynnag y bo modd, oherwydd bod nifer o sefydliadau o'r fath yn gorfod bodloni eu gofynion eu hunain o ran cyhoeddiadau a deunydd hysbysebu yng nghyd-destun Safonau'r Gymraeg.

2.1.9 Bydd holl staff y coleg yn creu llofnodion e-bost dwyieithog ac ymatebion dwyieithog awtomatig i ohebiaeth drwy e-bost, gyda'r Gymraeg uwchben y Saesneg. Byddwn yn darparu templedi yn adran yr Iaith Gymraeg ar y fewnrwyd staff.

2.1.10 Wrth hysbysebu gwybodaeth gyswllt fel rhifau ffôn neu rifau llinellau cymorth, ni fydd y coleg yn trin y Gymraeg yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran golwg (maint, ffont, lliw, gosodiad), maint a ffurf y deunydd, safle neu amlygrwydd y deunydd mewn unrhyw le cyhoeddus, neu pryd a sut caiff deunydd ei gyhoeddi, ei ddarparu neu ei arddangos.

## 2.2 **Arwyddion a hysbysiadau**

2.2.1 Bydd pob arwydd newydd neu arwydd sy'n cymryd lle hen un, gan gynnwys arwyddion dros dro, yn Gymraeg ac yn Saesneg, a chaiff y testun Cymraeg ei osod fel ei fod yn debygol o gael ei ddarllen yn gyntaf.

2.2.2 Bydd unrhyw arwyddion a hysbysiadau dros dro yn arddangos y testun Cymraeg mewn modd y bydd yn debygol y caiff ei ddarllen cyn unrhyw destun Saesneg.

2.2.3 Rhaid i'r testun Cymraeg a Saesneg fod yn gyfartal o ran ffont, maint, pwyslais a fformat. Bydd

defnyddio ffontiau gwahanol liw yn Gymraeg a Saesneg yn cael ei annog. 4 / 10 2.2.4 Bydd y Gymraeg ar bob arwydd a hysbysiad yn gywir o ran ystyr a mynegiant. Bydd yr Uned Gyfieithu ar gael i gynnig gwaith cyfieithu, cyngor a chymorth o ran hyn.

2.2.5 Bydd derbynfeydd yn arddangos arwydd/hysbysiad dwyieithog sy'n datgan bod croeso i ymwelwyr ddefnyddio'r Gymraeg.

## 2.3 Cynnwys ar-lein

2.3.1 Bydd pob tudalen bresennol a newydd ar wefan allanol y coleg ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn gweithio'n iawn drwy gyfrwng y ddwy iaith. Rhaid darparu dolen uniongyrchol at y dudalen Gymraeg ar y dudalen Saesneg gyfatebol.

2.3.2 Bydd pob tudalen bresennol a newydd ar fewnrwyd myfyrwyr y coleg, safleoedd dysgu rhithwir a safleoedd porth dysgu ar gael yn Gymraeg ac yn Saesneg, ac yn gweithio'n iawn drwy gyfrwng y ddwy iaith.

2.3.3 Bydd pob tudalen bresennol a newydd ar fewnrwyd staff y coleg sydd ar gael i'r holl staff yn cael ei gyhoeddi yn Gymraeg ac yn Saesneg ac yn gweithio'n iawn yn y ddwy iaith.

2.3.4 Dim ond ar gyfer cynnwys a rhyngwynebau a grëwyd gan Coleg Cambria y mae Adran 5 yn berthnasol iddynt, ac nid yw'n berthnasol i'r canlynol:

• Unrhyw destun nad yw'r coleg wedi'i gynhyrchu

• Dogfennau sydd ar gael drwy ddolen ar wefan na chafodd ei chreu gan Goleg Cambria. •

Negeseuon a roddir ar unrhyw un o'r uchod sydd i'w gweld gan is-set o'r gynulleidfa yn unig •

Deunydd hysbysebu ar wefan sydd heb ei chreu gan Goleg Cambria.

• Clipiau fideo a sain ar wefan na chafodd ei chreu gan Goleg Cambria.

• Cynnwys sydd heb ei gyhoeddi gan y coleg ar dudalen ryngweithiol a gyhoeddir ar ein gwefan (e.e. sylwadau neu fforwm drafod, cynnwys a gynhyrchwyd gan ddefnyddwyr)

• Cynnwys cyfryngau cymdeithasol na chafodd ei greu gan Goleg Cambria.

• Unrhyw gynnwys sydd ar gael mewn iaith heblaw Saesneg yn unig. 2.3.5 Bydd y coleg yn nodi ar unrhyw dudalen Saesneg sydd â thudalen Cymraeg cyfatebol bod fersiwn Cymraeg ar gael, a darparu dolen ar ei gyfer.

2.3.6 Bydd pob tudalen Cymraeg a Saesneg ar y we yn gyfartal o ran dyluniad, ansawdd a chywirdeb, a byddant yn cael eu diweddaru ar yr un pryd.

2.3.7 Bydd holl gyfrifon cyfryngau cymdeithasol y coleg yn hollol ddwyieithog neu bydd fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân. Os yw rhywun yn cysylltu â ni yn Gymraeg drwy blatfform cyfryngau cymdeithasol, byddwn yn ateb yn Gymraeg (os yw ateb yn ofynnol).

## 2.4 Meddalwedd ac apiau

2.4.1 Cysgliad - bydd y pecyn gwirydd sillafu a gramadeg Cymraeg, thesawrws a geiriadur Cymraeg am ddim ar gael ar holl gyfrifiaduron y coleg.

2.4.2 Bydd pob ap y bydd y coleg yn ei gyhoeddi yn gweithio'n iawn yn Gymraeg, ac ni fydd y

Gymraeg yn cael ei thrin yn llai ffafriol na'r Saesneg o ran yr ap hwnnw.



## 2.5 Gwasanaethau ffôn

2.5.1 Mae'r adran hon o'r polisi yn rhoi canllawiau ar y gofynion Cymraeg o ran y canlynol: ● Cael galwadau ffôn

● Negeseuon llais

● Systemau awtomataidd

2.5.2 At ddibenion y polisi hwn, mae 'galwadau ffôn' yn cyfeirio at alwadau allanol i'r coleg, nid galwadau mewnol rhwng aelodau staff.

2.5.3 At ddibenion y polisi hwn, mae 'galwadau ffôn' yn golygu unrhyw alwad i rif ffôn yn y coleg pan fo pwrpas neu gynnwys yr alwad o dan sylw yn berthnasol i unrhyw un neu ragor o'r canlynol: a) derbyn a dethol myfyrwyr;

b) gwybodaeth a roddir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y coleg; c) lles myfyrwyr; d) cwynion;

e) gweithdrefnau disgyblu ynghylch myfyriwr;

f) gwasanaethau gyrfaoedd;

g) mewnrwyd y myfyrwyr, safleoedd dysgu rhithwir, a safleoedd porth dysgu;

h) seremonïau graddio a gwobrwyo;

i) asesiadau neu arholiadau myfyrwyr;

j) dyfarnu grantiau a rhoi cymorth ariannol; k) darlithoedd cyhoeddus;
l) cyfleoedd dysgu;

m) pennu tiwtoriaid personol;

n) llety myfyrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau;

o) galwadau i linell gymorth, canolfan alwadau neu brif rifau ffôn a systemau ffôn awtomatig;

p) arwyddion ar adeiladau'r coleg.

2.5.4 Bydd staff sy'n gyfrifol am gyfarch galwyr allanol ar unrhyw brif rif(au) ffôn neu rifau llinell gymorth gyfarch yr unigolyn yn Gymraeg (a Saesneg) gan ddweud: "Bore da ["Bor-reh dah"] / Good morning " neu "Pnawn da [Puh-noun dah"] / Good afternoon". Os nad ydynt yn gallu parhau â'r alwad ffôn yn Gymraeg, byddant yn trosglwyddo'r alwad i aelod o staff sy'n siarad Cymraeg (mae rhestr lawn ar gael ar y fewnrwyd), neu os nad yw hyn yn bosib byddwn yn cynnig bod siaradwr Cymraeg yn rhoi galwad yn ôl iddynt.

2.5.5 Pan yn cynnig gwasanaeth Cymraeg ar ein prif rif(au) ffôn, neu unrhyw rifau llinell gymorth, bydd rhif ffôn y gwasanaeth Cymraeg yr un rhif a'r gwasanaeth Saesneg cyfatebol.

2.5.6 Bydd neges lais ddwyieithog yn cael ei darparu ar ein prif rif ffôn a'n rhifau llinell gymorth gyda'r neges Gymraeg yn gyntaf.

2.5.7 Bydd ein dangosyddion perfformiad ar gyfer ateb galwadau ffôn yn sicrhau nad yw'r dangosyddion perfformiad hynny yn trin galwadau ffôn a wneir yn Gymraeg yn llai ffafriol na galwadau a wneir yn Saesneg.

2.5.9 Bydd ein systemau ffôn awtomataidd yn darparu gwasanaeth awtomataidd cyflawn yn Gymraeg (a Saesneg).



2.5.10 Pan fo unrhyw aelod o staff yn ffonio rhywun allanol sy'n byw yng Nghymru ar ran y coleg, mae'n rhaid gofyn i'r unigolyn hwnnw a hoffai drafod y mater o dan sylw yn Gymraeg; a bydd y dewis hwn yn cael ei gofnodi, a bydd unrhyw alwadau yn y dyfodol sy'n ymwneud â'r mater yn cael eu cynnal yn Gymraeg.

## 2.6 Cyfarfodydd

2.6.1 Pan fo aelod o staff yn trefnu unrhyw gyfarfod ar ran y coleg gydag unrhyw fyfyriwr/fyfyrwyr neu aelod(au) o'r cyhoedd, lle bo diben neu gynnwys y cyfarfod o dan sylw yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion isod, mae'n rhaid gofyn i'r rhai a wahoddir a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod. <u>Os bydd o leiaf 10%</u> yn dynodi eu bod yn dymuno cyfrannu yn Gymraeg, mae'n rhaid cynnal y cyfarfod yn Gymraeg; a bydd gwasanaeth cyfieithu ar y pryd yn cael ei ddarparu os nad oes modd cynnal y cyfarfod yn Gymraeg:

a) derbyn a dethol myfyrwyr;

b) gwybodaeth a roddir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y coleg; c) lles

myfyrwyr; d) cwynion;

e) gweithdrefnau disgyblu ynghylch myfyriwr;

f) gwasanaethau gyrfaoedd;

g) asesiadau neu arholiadau myfyrwyr;

h) dyfarnu grantiau a rhoi cymorth ariannol;
i) cyfleoedd dysgu;

j) pennu tiwtoriaid personol;

k) cwyn a wneir am fyfyriwr neu gan fyfyriwr neu aelod o'r cyhoedd;

l) darparu cymorth i fyfyrwyr ar ffurf cwnsela.

2.6.2 Wrth drefnu cyfarfod sy'n agored i'r cyhoedd neu fyfyrwyr, byddwn yn:

- cynhyrchu gwahoddiadau dwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf neu os yw fersiynau ar wahan yn cael eu creu

rhaid i fersiynau Saesneg nodi bod fersiwn Cymraeg ar gael.

- datgan ar unrhyw ddeunyddiau sy'n hysbysebu'r cyfarfod bod croeso i unrhyw un sy'n mynd iddo ddefnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod.
- sicrhau bod deunyddiau'r cyfarfod yn cael eu harddangos yn Gymraeg
- gofyn i bawb sy'n cael eu gwahodd i siarad a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn y cyfarfod
- sicrhau bod gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gael yn y cyfarfod ar gyfer dibenion sesiynau holi ac ateb a

- rhoi gwybod i'r mynychwyr ar lafar bod croeso iddynt gyfrannu yn Gymraeg a bod gwasanaeth cyfieithu ar gael.



## 2.7 Anogwyr Cynnydd

2.7.1 Byddwn yn gofyn i'r holl fyfyrwyr a hoffent gael Anogwr Cynnydd sy'n siarad Cymraeg yn ystod y cyfnod cofrestru. Os nad oes Anogwyr Cynnydd sy'n gallu siarad Cymraeg yn yr adran, byddwn yn gofyn i aelod priodol o staff o adran arall fod yn diwtor i'r myfyriwr.

## 2.8 Asesiadau ac arholiadau

2.8.1 Bydd gan y coleg broses ar waith i wneud yn siŵr bod pob myfyriwr yn cael gwybod am eu hawl i gwblhau asesiadau ysgrifenedig trwy gyfrwng y Gymraeg. Caiff hyn ei wneud yn ystod cofrestru neu yn ystod y broses ymsefydlu.

2.8.2 Os bydd myfyriwr yn dymuno sefyll asesiad ysgrifenedig yn Gymraeg, bydd y coleg yn ymdrechu i sicrhau bod yr holl waith cwrs, papurau arholiad a sgriptiau'n cael eu marcio yn Gymraeg. Os nad yw hyn yn bosibl, bydd y coleg yn ymdrechu i sicrhau bod papurau arholiad a sgriptiau'n cael eu cyfieithu i'r Saesneg gan gyfieithydd cymwys. Bydd adborth unrhyw asesiad ar gael yn Gymraeg hefyd.

2.8.3 Ni fydd penderfynu cwblhau unrhyw asesiad drwy gyfrwng y Gymraeg yn effeithio ar ganlyniad yr asesiad na'r amser a gymerir i ddyfarnu gradd mewn unrhyw ffordd.

## 2.9 Darlithoedd cyhoeddus, digwyddiadau a chyfleoedd dysgu

2.9.1 Wrth drefnu unrhyw ddigwyddiad cyhoeddus (gan gynnwys digwyddiadau cyhoeddus a gynhelir gan sefydliadau eraill, lle mae'r coleg yn ariannu o leiaf 50% ohono), pan mae'r digwyddiad yn ymwneud ag unrhyw un o'r materion isod:

a) derbyn a dethol myfyrwyr;

b) gwybodaeth a roddir i fyfyrwyr a darpar fyfyrwyr am y coleg; c) lles

myfyrwyr; d) cwynion;
e) gweithdrefnau disgyblu ynghylch myfyriwr;

f) gwasanaethau gyrfaoedd;

g) mewnrwyd y myfyrwyr, safleoedd dysgu rhithwir, a safleoedd porth dysgu;

h) seremonïau graddio a gwobrwyo;

i) asesiadau neu arholiadau myfyrwyr;

j) dyfarnu grantiau a rhoi cymorth ariannol; k) darlithoedd cyhoeddus;

l) cyfleoedd dysgu;

m) pennu tiwtoriaid personol;

n) llety myfyrwyr, llyfrgelloedd a chanolfannau celfyddydau;

o) galwadau i linell gymorth, canolfan alwadau neu brif rifau ffôn a systemau ffôn awtomatig; p) arwyddion ar adeiladau'r coleg

byddwn yn sicrhau bod:

- y gwasanaethau a gynigir cyn, ac yn ystod, y digwyddiad i'r rhai sy'n mynd iddo ar gael yn Gymraeg (a Saesneg) o ran y broses cofrestru, derbynfa, cyhoeddiadau sain, arwyddion.

- y deunyddiau sy'n hyrwyddo'r digwyddiad ar gael yn ddwyieithog gyda'r Gymraeg yn gyntaf (neu mewn fersiynau Cymraeg a Saesneg ar wahân).

8 / 10

2.9.3 Wrth drefnu unrhyw ddarlith gyhoeddus, lle bo pwnc y darlith neu'r gynulleidfa a ddisgwylir yn golygu ei bod hi'n debygol y bydd y cyhoedd yn disgwyl gallu cyfrannu yn Gymraeg, rhaid darparu gwasanaeth cyfieithu ar y pryd o'r Gymraeg i'r Saesneg ar gyfer unrhyw sesiwn holi ac ateb, ac mae'n rhaid rhoi gwybod ar lafar i'r rhai sy'n bresennol bod croeso iddynt gyfrannu yn Gymraeg yn ystod y sesiwn.

2.9.4 Mae'n rhaid i unrhyw gyfle dysgu sy'n agored i'r cyhoedd y mae'r coleg yn ei gynnig gael ei ddarparu yn Gymraeg.

Diffinnir cyfle dysgu fel unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn ragflas, neu ddarpariaeth debyg sy'n cael ei darparu er mwyn addysgu neu wella sgiliau'r cyhoedd; ond nid yw'n cynnwys unrhyw seminar, hyfforddiant, gweithdy, sesiwn ragflas neu ddarpariaeth debyg a ddarperir yn rhan o gwrs; neu seminarau neu gyflwyniadau sy'n ymwneud â pherfformiad neu gynhyrchiad.

9 / 10

# 3 Gweithrediadau Mewnol

## 3.1 Staffio a recriwtio

3.1.1 Wrth gynnig swydd newydd i unigolyn, byddwn yn gofyn iddynt p'un a ydynt yn dymuno i'r contract cyflogaeth neu gontract gwasanaethau gael ei ddarparu yn Gymraeg; a'u darparu yn Gymraeg pe baent yn dymuno.

3.1.2 Byddwn yn gofyn i'r holl weithwyr p'un a ydynt yn dymuno cael y canlynol yn Gymraeg, a'u darparu nhw fel y mynnant a bydd y dewis yn cael ei nodi ar People Hub.

- gohebiaeth bapur yn ymwneud â'u cyflogaeth ac wedi'i chyfeirio'n bersonol atynt yn Gymraeg.
- dogfennau'n amlinellu anghenion neu ofynion hyfforddi.
- dogfennau'n amlinellu amcanion perfformio.
- dogfennau sy'n amlinellu neu'n cofnodi eu cynllun gyrfa.
- ffurflenni sy'n cofnodi ac yn awdurdodi gwyliau, absenoldebau o'r gwaith ac oriau gweithio'n hyblyg.

3.1.3 Wrth asesu'r anghenion ar gyfer swydd newydd neu swydd wag, byddwn yn asesu'r angen am sgiliau Cymraeg ac yn ei chategoreiddio fel swydd lle mae'r Gymraeg yn hanfodol neu'n ddymunol. Bydd y categori dewisol yn cael ei nodi yn hysbyseb y swydd, a bydd y swydd yn cael ei hysbysebu'n Gymraeg.

3.1.4 Wrth hysbysebu swydd, byddwn yn annog ceisiadau i gael eu cyflwyno'n Gymraeg, ac na fydd y ceisiadau hynny'n cael eu trin yn llai ffafriol na'r rhai sy'n cael eu cyflwyno'n Saesneg.

3.1.5 Bydd ffurflenni cais swyddi, deunydd esboniadol am ein proses ymgeisio am swydd, gwybodaeth am ein proses cyfweliadau ac unrhyw ddulliau asesu a disgrifiadau swyddi yn cael eu cyhoeddi'n Gymraeg, ac ni fyddant yn cael eu trin yn llai ffafriol na fersiynau Saesneg.

3.1.6 Bydd ceisiadau a gyflwynir yn Gymraeg yn cael eu trin yn gyfartal a'r rhai a gyflwynir yn Saesneg. Yn ogystal bydd terfynau amser, amserlenni rhoi gwybod am benderfyniadau i ymgeiswyr ac ati yn cael eu cynnal ar yr un amser ar gyfer y ddwy iaith.

3.1.7 Ar ein ffurflenni cais, bydd lle i'r ymgeiswyr nodi a ydynt yn dymuno defnyddio'r Gymraeg yn eu cyfweliad ac yn eu hasesiadau. Rydym yn nodi ein bod yn defnyddio gwasanaeth cyfieithu ar y pryd os na allwn wneud hynny heb ddefnyddio'r gwasanaeth.

3.1.8 Os yw ymgeisydd swydd wedi ymgeisio am swydd yn Gymraeg, byddwn yn rhoi gwybod iddynt am y penderfyniad ynghylch eu cais yn Gymraeg.

## 3.2 Cwynion gan/am staff

3.2.1 Gall ein holl staff wneud cwynion yn Gymraeg, ac ymateb i unrhyw gŵyn sydd wedi'u gwneud amdanynt yn Gymraeg. Mae'r hawl honno wedi'i nodi yn y Polisi Cwynion.

3.2.2



Pe byddai'r aelod o staff sy'n gwneud cwyn neu'n ymateb i gŵyn amdanyn nhw eu hunain yn dymuno defnyddio'r Gymraeg mewn unrhyw elfen o'r broses, byddwn yn sicrhau bod hyn yn cael ei wneud, gan ddefnyddio gwasanaethau cyfieithu ar y pryd fel bo angen.

## 3.3 Sgiliau Iaith Gymraeg a hyfforddiant

3.3.1 Bydd sgiliau iaith Gymraeg ein gweithwyr eu hasesu'n fisol. A byddwn yn gosod targedau blynyddol i gynyddu'r nifer o staff sydd â Sgiliau Iaith Gymraeg.

3.3.2Byddwn yn darparu hyffoddiant yn Gymraeg yn y meysydd canlynol os ydynt yn cael eu cynnal yn Saesneg -

(a) recriwtio a chyfweliadau;

(b) rheoli perfformiad;

(c) Gweithdrefn cwynion a disgyblu;

(d) ymsefydlu;

(d) ymdrin â'r cyhoedd; ac

(f) iechyd a diogelwch.

3.3.3 Byddwn yn darparu hyfforddiant ar ddefnyddio'r Gymraeg yn effeithiol mewn cyfarfodydd, cyfweliadau, gweithdrefnau cwynion a disgyblu.

3.3.4 Byddwn yn darparu cyrsiau hyfforddi ar gyfer ein gweithwyr i ddatblygu eu hymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg, eu dealltwriaeth o weithredu Safonau'r Iaith Gymraeg, a'u dealltwriaeth am sut y gellir defnyddio'r Gymraeg yn y gweithle.

3.3.5 Byddwn yn rhoi cyfleoedd yn ystod oriau gweithio i'n gweithwyr gael gwersi Cymraeg

3.3.6 Byddwn yn cyflwyno rhaglen ymwybyddiaeth o'r iaith Gymraeg fel rhan o'n proses ymsefydlu.

3.3.7 Bydd yn ofynnol ar bob aelod newydd o staff ymgymryd â chwrs rhagflas byr os nad oes ganddynt unrhyw sgiliau Cymraeg.

### 3.4 Iaith Gwaith (Working Welsh)

3.4.1 Bydd yr holl staff a myfyrwyr sy'n gallu siarad Cymraeg yn gwisgo cordyn gwddf y coleg sy'n cynnwys cwmwl siarad oren ychwanegol fel y gellir eu canfod yn hawdd, yn unol â'r Cynllun Iaith Gwaith.

3.4.2 Bydd y rhain yn cael eu hyrwyddo yn ystod cyfnod ymsefydlu staff a myfyrwyr a byddant ar gael o'r derbynfeydd.

### 3.5 Polisïau

3.5.1 Wrth greu polisi newydd neu adolygu neu addasu polisi presennol

, byddwn yn ystyried yr effeithiau y byddai'r polisi hwnnw yn eu cael ar gyfleoedd i ddefnyddio'r Gymraeg ac i'r Gymraeg a Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

use the Welsh language and for Welsh and English to be treated equally.

3.5.2 Wrth gyhoeddi dogfen ymgynghori sy'n ymwneud a phenderfyniad polisi, byddwn yn 11 / 10

consider and seek views on the effects that a policy decision will have on

people's opportunities to use the Welsh language and for Welsh and English to be

ystyried ac yn ceisio barn am effeithiau y bydd penderfyniad y polisi hwnnw yn eu cael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i'r Gymraeg a Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

3.5.3 Mae Strategaeth Caffael y coleg yn cynnwys adran sy'n pwysleisio'r angen i ystyried effaith y Gymraeg wrth wneud penderfyniadau am ddyfarnu grantiau neu ddarparu cymorth ariannol.

to consider the impact on the Welsh language when making decisions about awarding grants or providing financial assistance.

3.5.4 Wrth gomisiynu neu wneud ymchwil gyda'r bwriad o'n cynorthwyo ni i wneud penderfyniad polisi, byddwn yn sicrhau bod yr ymchwil yn ystyried pa effeithiau y byddai'r penderfyniad polisi dan sylw yn eu cael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i'r Gymraeg a Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

a policy decision, we will ensure that the research considers what effects the

policy decision under consideration would have on people's opportunities to

use the Welsh language and for Welsh and English to be treated equally.

3.5.5 Wrth ddatblygu ac addasu cwrs (neu unrhyw gyfadran cwrs), byddwn yn ystyried yr effeithiau y bydd y cwrs yn eu cael ar gyfleoedd pobl i ddefnyddio'r Gymraeg ac i'r Gymraeg a Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

consider the effects that that course would have on people's opportunities to

use the Welsh language and for Welsh and English to be treated equally.

3.5.6 Bydd pob polisi y coleg yn cael ei gyhoeddi'n Gymraeg, gan gynnwys:

3.5.6.1 Ymddygiad yn y gweithle

3.5.6.2 Iechyd a Llesiant yn y Gweithle

3.5.6.3 Cyflogau neu fuddion yn y gweithle

3.5.6.4 Rheoli Perfformiad

3.5.6.5 Absenoldeb o'r gwaith

3.5.6.6. Amodau gweithio

3.5.6.7 Patrymau gweithio

3.5.7 Caiff pob polisi newydd neu bolisïau sy'n cael eu hadolygu eu cymeradwyo gan Grŵp Cyfathrebu a Diwylliant y coleg.

Communication and Culture Group. Mae Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a'r Gymraeg yn rhan o'r grŵp ac yn craffu ar effaith y polisi gan sicrhau ei fod yn cydymffurfio â'r angen i ddefnyddio'r Gymraeg ac i'r Gymraeg a'r Saesneg gael eu trin yn gyfartal.

Welsh Language is part of the group and scrutinises the impact of the policy ensuring

that it complies with the need to use Welsh and for Welsh and English to be treated

equally.



### 3.6 Cadw cofnodion

Rydym yn cadw cofnod o'r canlynol:

- Y nifer o gwynion rydym yn eu cael sy'n ymwneud â'n cydymffurfiaeth â'r safonau a chopïau ohonynt.
- Copi o unrhyw gŵyn ysgrifenedig yr ydym yn ei chael sy'n ymwneud â'r Gymraeg (p'un a yw'r gŵyn yn ymwneud â'r safonau yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw ai peidio).
- Y camau rydym wedi'u cymryd i sicrhau ein bod yn cydymffurfio cydymffurfio â'r safonau llunio polisi yr ydym o dan ddyletswydd i gydymffurfio â nhw.
- Nifer y gweithwyr sydd â sgiliau Cymraeg a lefel sgiliau'r gweithwyr hynny, yn dilyn asesiadau sgiliau Cymraeg ein gweithwyr.
- Y nifer o staff a aeth ar gyrsiau hyfforddiant yn Gymraeg (yn unol â safon 135) a chanran cyfanswm y staff a fynychodd y fersiwn honno o'r cwrs.
- Yr holl asesiadau sgiliau Cymraeg yr ydym yn eu gwneud, a fydd yn ofynnol o ran swydd newydd neu wag.
- Nifer y swyddi newydd a gwag yn y categori (yn unol â safon 145) sy'n mynnu bod sgiliau Cymraeg yn hanfodol ac yn ddymunol, y sgiliau Cymraeg sy'n ofynnol unwaith y bydd swydd yn cael ei phenodi; a'r swyddi lle nad oedd sgiliau Cymraeg yn angenrheidiol.

145) as requiring Welsh language skills as essential and desirable, Welsh language skills required once a post is appointed; and the jobs where Welsh language skills were not necessary.

## 4 Cwynion

4.1 Byddwn yn ymdrin â phob cwyn sy'n gysylltiedig â'n cydymffurfiaeth yn unol â pholisi a gweithdrefnau'r coleg - https://www.cambria.ac.uk/feedback-complaints/

## 5 Cyfrifoldeb a Monitro

13.1 Pennaeth Cyfathrebu Corfforaethol a'r Gymraeg sy'n gyfrifol yn y pen draw am wneud yn siŵr bod y coleg yn cydymffurfio â'r Rheoliadau (Rhif 6) y Gymraeg 2017 drwyddi draw, yn ogystal â holl faterion eraill sy'n ymwneud â gweithredu a monitro polisïau.

5.2 Mae gan y Grŵp Profiad Pobl a Diwylliant Uwch Dîm Rheoli'r Coleg gyfrifoldeb penodol am faterion sy'n gysylltiedig â gweithredu'r hyn sy'n ofynnol o dan Reoliadau (Rhif 6) y Gymraeg 2017. Bydd adroddiad misol yn cael ei baratoi ar gyfer y grŵp hwnnw.

5.3 Mae'r holl staff sy'n ymgymryd â gwaith yn y meysydd polisi o dan sylw yn gyfrifol am y canllawiau a amlinellir yn y polisi hwn.